| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **17 MAWRTH 2022** |
| TEITL: | **POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL** |
| PWRPAS: | **I gymeradwyo'r polisi Buddsoddi Cyfrifol** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, CYFARWYDDWR Y GRONFA A DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw cymeradwyo polisi Buddsoddi Cyfrifol Cronfa Bensiwn Gwynedd.

1.2 Mae'r polisi yma wedi ei drafod gan y Bwrdd Pensiwn ar Fawrth 7fed 2022.

## 2. BUDDSODDI CYFRIFOL

2.1 Mae'r Gronfa yn cydnabod y gall materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol fod yn risg ariannol i'r rhanddeiliaid a gall ddylanwadu ar enillion ac enw da hirdymor y Gronfa.

2.2 Mae'r Gronfa wedi rhyddhau dau ddatganiad buddsoddi cyfrifol yn Ebrill a Gorffennaf 2021 a nawr wedi ffurfioli'r credoau o fewn y polisi.

## 3. POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL

3.1 Mae'r polisi drafft yn Atodiad 1 ac yn cwmpasu'r prif feysydd canlynol:

- Credoau Buddsoddi
- Ymgysylltu
- Adrodd a Datguddiadau
- Lleihau allyriadau carbon y Gronfa ac amcanion y dyfodol
- Fframwaith i gefnogi uchelgais hinsawdd y Gronfa

## 4. AMCAN NET SERO

4.1 O fewn y polisi, mae'r Gronfa wedi ymrwymo i osod amcan i fod yn net sero erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonolrwydd y Gronfa i gyrraedd net sero 5,10 neu 15 mlynedd ynghynt. Mae'r ffactorau a ystyriwyd wrth osod y nod hwn yn cael eu trafod yn y polisi.

4.2 Mae fframwaith wedi'i ddatblygu i gefnogi uchelgeisiau'r Gronfa, gan gwmpasu cyfleoedd, ymgysylltu, a monitro a metrigau.

## 5. DATBLYGIADAU'R DYFODOL

5.1 Ar hyn o bryd, gall cronfeydd CPLIL wneud penderfyniadau darbodus ynghylch dargyfeirio yn seiliedig ar asesiad o ganlyniadau ariannol nifer o faterion, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG). Gweler yn atodiad 2 bod y Bil Boicotio, Ymddieithrio a

Sancsiynau (BDS) wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar lle mae mesurau i gyfyngu ar wariant a phenderfyniadau caffael a wneir gan gyrff cyhoeddus wedi'u cyhoeddi. Byddai'r datblygiadau hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau i'r awdurdodau hynny sy'n gweinyddu cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y cynllun pensiwn llywodraeth leol, na allant wneud penderfyniadau buddsoddi sy'n gwrthdaro â pholisi tramor ac amddiffyn y DU.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r polisi Buddsoddi Cyfrifol.